Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

1 Rhagfyr 2010

Tîm Iechyd Meddwl Sir y Fflint yn Bachu Gwobr Genedlaethol

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (GIMPPI) Sir y Fflint wedi cael eu henwi yn Ddarparwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a Phobl Ifanc y Flwyddyn 2010 gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Mae Gwobrau blynyddol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn dynodi'r lefel uchaf o gyflawniad o fewn seiciatreg, ac fe'u cynlluniwyd i gydnabod a gwobrwyo arferion ardderchog ym maes iechyd meddwl.

Cyflwynwyd y wobr i dri deg o aelodau'r tîm gan yr Athro Louis Appleby, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol dros Iechyd a Chyfiawnder Troseddol mewn seremoni fawreddog yn y Gymdeithas Meddygaeth Frenhinol ar 16 Tachwedd.

Dywedodd yr Athro Dinesh Bhugra, Llywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion: "Drwy'r Gwobrau hyn, mae'r unigolion a'r gwasanaethau sy'n darparu'r gofal iechyd meddwl o safon uchaf yn cael cydnabyddiaeth genedlaethol. Ar ran y Coleg, hoffwn gynnig llongyfarchiadau calonnog i'r ddau dîm o Sir y Fflint, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru."

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Rwyf yn falch iawn o waith y Tîm, ac yn hynod falch eu bod wedi cael y gydnabyddiaeth genedlaethol yma."

Mae gwasanaethau GIMPPI Sir y Fflint yn ymfalchïo yn eu hamseroedd ymateb cyflym i gyfeiriadau, un o'u prif flaenoriaethau yn ôl pobl ifanc, rhieni a chyfeirwyr.

Cyflawnwyd yr amseroedd aros byrraf yng Nghymru drwy foderneiddio'r gweithlu, ail gynllunio asesiadau ymyriad a therapi ac ymdrechion parhaus i ddileu oedi ac ailadrodd.

Mae'r tîm wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu ymyriadau i atal ac ymyrryd yn gynnar gyda'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl. Mae'n cynnig ystod eang o wasanaethau'n seiliedig ar dystiolaeth a gynlluniwyd efo help pobl ifanc a rhieni. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn gweithio efo partneriaid i chwilio am ffyrdd o gael pobl ifanc i gymryd rhan mewn hyfforddiant i staff.

Bu cystadlu brwd iawn am y Gwobrau hyn, ac yn ôl y beirniaid roedd safon y ceisiadau yn anhygoel eleni.

Dywedodd Dr Peter Roots, Seiciatrydd Plant a Phobl Ifanc sy'n rhan o dîm Sir y Fflint: "Rydym yn falch iawn ein bod wedi ennill y wobr, sy'n cydnabod gwaith caled holl aelodau'r ddau dîm. Mae eu brwdfrydedd a'u hyblygrwydd wedi galluogi'r gwasanaeth i addasu'n barhaus i anghenion cyfnewidiol pobl ifanc yn Sir y Fflint. Cafodd y beirniaid hefyd eu taro gan yr adborth cadarnhaol a gawsant gan deuluoedd a'r ysbryd o gyd-dynnu o fewn y tîm."

Dywedodd Dr Brendan Harrington, Pennaeth Staff Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Gall pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl fod ymysg yr aelodau mwyaf bregus o'n cymunedau. Mae darparu'r gofal iawn gyda'r oedi lleiaf bosibl yn helpu i fodloni eu hanghenion ar y funud honno, ond mae hefyd yn helpu i leihau'r risg y byddant yn cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl yn nes ymlaen yn eu bywydau."

DIWEDD

Gwybodaeth am y llun

Mae'r lluniau'n dangos:

(1) cynrychiolwyr o'r Tîm yn derbyn eu gwobr yn y Gymdeithas Feddygaeth Frenhinol gan yr Athro Louis Appleby, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol dros Iechyd a Chyfiawnder Troseddol, ynghyd â'r Athro Dinesh Bhugra, Llywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (pumed o'r chwith, yn gwisgo'r fedal seremonïol)

(2) y timau llawn yn y derbyniad ar ôl y seremoni wobrwyo

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 384 938.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

1 December 2010

Flintshire Mental Health Team Scoop UK Award

Flintshire Children and Adolescent Mental Health Services (CAMHS) have been named Specialist Child and Adolescent Mental Health Services Provider of the Year 2010 by the Royal College of Psychiatrists.

The annual RCPsych Awards mark the highest level of achievement within psychiatry, and are designed to recognise and reward excellent practice in the field of mental health.

Thirty members of the team were presented with their award by Professor Louis Appleby, National Clinical Director for Health and Criminal Justice, at a prestigious ceremony held at the Royal Society of Medicine on 16 November.

Professor Dinesh Bhugra, President of the Royal College of Psychiatrists, said: “Through the RCPsych Awards, we bring national recognition to those individuals and services who are delivering the highest quality mental health care. On behalf of the College, I offer my heartfelt congratulations to both Flintshire teams, who are making a real difference to the lives of service users and carers in Wales.”

Mary Burrows, Chief Executive of the Betsi Cadwaladr University Health Board, said: “I am very proud of the work of the Team and delighted that they have received this national recognition.

The Flintshire CAMHS services pride themselves on their rapid response times to referrals which young people, parents and referrers consistently rate as one of their top priorities.

The lowest waiting times in Wales were achieved by modernising the workforce, redesigning assessment intervention and therapy and continual efforts to eliminate delay and repetition.

The team has been successful in developing interventions to prevent and intervene early with those at risk of developing mental health problems. It offers a wide range of evidenced based services which are planned with the assistance of young people and parents. The team are now working with partners to look at ways to get young people participating in staff training.

Competition for the RCPsych Awards was extremely tough, and the judging panels were overwhelmed by the quality of this year's entries.

Dr Peter Roots, Child and Adolescent Psychiatrist who is part of the Flintshire team said: "We were delighted to win the award which recognises the hard work of all members of the two teams. Their enthusiasm and flexibility have enabled the service to continually adapt to the changing needs of young people in Flintshire. The judges were also struck by the positive feedback from families they met and the strong sense of team spirit they came across."

Dr Brendan Harrington, Chief of Staff for Children's Services in the Betsi Cadwaladr University Health Board, said: "Young people with mental health problems can be among the most vulnerable members of our communities. Providing the right care with a minimum of delay doesn't only help meet their immediate needs, it also helps to reduce the risks that they will be affected by mental health problems later in life."

ENDS

Caption info

The photographs show

(1) representatives of the Team receiving their award at the Royal Society of Medicine in London from Professor Louis Appleby, National Clinical Director for Health and Criminal Justice, accompanied by Professor Dinesh Bhugra, President of the Royal College of Psychiatrists (fifth in from the left, wearing the ceremonial medal)

(2) the full teams at the reception following the award ceremony

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938